

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Ceibwr/Trewyddel

Teithiau Hanner Dydd a Mwy



GRADDFA: 0 300 600 m

PELLTER/HYD: 3.8 milltir (6.1 km) 2 awr

CLUDIANT CYHOEDDUS: *Poppit Rocket 405 (*tymhorol, galw a teithio)

CYMERIAD: Gweddol ar lwybrau'r arfordir a thua'r tir, adran serth ym Mhwll-y-wrach, caeau a da byw, 2.1 km o gerdded ar isffyrdd


CHWILIWCH AM: Plygiadau a ffawtiau dramatig yn y clogwyni, wrth edrych tua'r gogledd o Geibwr • chwythdwl Pwll-y-wrach sydd wedi dymchwel • caer Oes Haearn • gweilch y penwaig • morloi

CYMRWCH OFAL!

- Byddwch yn ofalus ar Lwybr yr Arfordir
- Cadwch at y llwybr ac i ffwrdd o ymylon y clogwyni
- Gwisgwch esgidiau cryfion a dillad cynnes, sy'n dal dŵr
- Cymrwch ofal arbennig mewn tywydd gwyntog a/neu wlyb
- Cadwch lygad barcut ar blant a chwn bob amser
- Cofiwch gau gatiâu

ALLWEDD

- Lwybr Cylch
- Lwybr Arfordir Sir Benfro
Lwybr Cenedlaethol
- - - Lwybrau Cyhoeddus
- P Maes Parcio
- WC Toileadau Cyhoeddus (tymhorol)
- ☒ Safle Bws
- ☒ Caffi



Ceibwr/Trewyddel

Teithiau Hanner Dydd a Mwy

Hyd: 2 awr

Pellter: 3.8 milltir (6.1 km)

Cludiant cyhoeddus: *Poppit Rocket 405 (*tymhorol, galw a teithio).

Cyfeirnod map: SN113450

Mae'r arfordir gwyllt ac unig o amgylch Ceibwr yn arbennig o garegog a dramatig. Cilfach fechan yw Bae Ceibwr - ychydig mwy na thafliad carreg o led - gyda thraeth o gerrig. Yn aml, gellir gweld morloi llwyd yn agos at y traeth.

Y cildraeth yw'r unig doriad mewn ehangder gwaharddedig o glogwyni o Ben Cemaes i'r gogledd a Threfdraeth i'r de. Mae eu daeareg yn drawiadol - tros miliynau o flynyddoedd, gwyrddrowyd a phlygwyd y creigiau Ordoficaidd gan symudiadau pwerus y ddaear ac mae'r strata a ddiodefodd i'w gweld yn amlwg. O'r llwybr uwchlaw Bae Ceibwr mae yna olygfeydd gwych o'r clogwyni patrymog i'r gogledd ym mhentir Pen-yr-afr.

Ychwanegiad gweddol ddiweddar at y dirwedd yw Ceibwr ei hun. Fe'i cerfiwyd gan ddŵr tawdd o'r Oes Iâ a orlifodd Nant Ceibwr, sydd bellach yn ymestyn allan tros draeth Ceibwr, ynghyd â chwm coediog y nant, Cwm Trewyddel. Mae pentref bach tlws Trewyddel yng nghysgod y cwm.

Mae'r adran sy'n ymestyn ar hyd copa'r clogwyni o Geibwr yn pasio creigiau garw, ogofau a chwythdyllau. Ym Mhwll-y-wrach, mae to un o'r ogofau wedi dymchwel i greu chwythdwl trawiadol. Ar un ochr, mae'r nant yn diflannu i mewn i'r 'pwll' hwn, tra ar y llall mae llwybr cul yn ei gysylltu at y môr.

Chwiliwch am y fryngaer Oes Haearn, Castell Treriffith, yn agos at Bwll-y-wrach.

Mae'r clogwyni a'r creigiau unig ar hyd yr arfordir o amgylch Ceibwr yn lle gwych i weld bywyd gwyllt. Chwiliwch am adar gwych fel gwylanod, gwylanod y graig, y fulfran werdd a'r bilidowcar, ac mae yna siawns dda o weld brain coesgoch hefyd.

Mae'r fran goesgoch yn aelod o deulu'r frân gyda'i phlu du sgleiniog, ac mae ei phig hir, crwm a'i choesau yn binc llachar. Maen nhw wrth eu bodd yn pori trwy'r pridd am bryfed a phrin y gwelir hwy ymhell o'r môr.

Mae Geraint Harries, Uwch Barmon Sector y Gogledd gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn dweud: "Yn aml, yn gynnar yn yr Haf, fe allwch chi weld grwpiau o weilch y penwaig a gwylogod yn hela am bysgod ychydig oddi ar y lan."

